



## **Dewch yn Gynghorydd Lleol yn 2017 Canllaw i Gynghorau Cymuned a Thref a Rôl Cynghorwyr Cymuned a Thref**

**Llyfryn ar gyfer unrhyw un sydd eisiau gwybod mwy am  
gynghorau cymuned a thref a rôl cynghorwyr cymuned a thref**

**Cyhoeddwyd gan Un Llais Cymru**



## MWY AM UN LLAIS CYMRU

Un Llais Cymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref trwy Gymru. Gweledigaeth Un Llais Cymru yw:

***“Gweithio gyda chynghorau lleol yng Nghymru i liwio lleoedd y mae cymunedau eisiau byw ynddynt”***

Mae Un Llais Cymru yn anelu at gefnogi Cyngorau Cymuned a Thref i wireddu'r weledigaeth hon a mabwysiadodd y Datganiad Cenhadaeth canlynol i lywio ei waith:

***“Cynrychioli buddiannau Cyngorau Cymuned a Thref; codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r haen gyntaf hon o lywodraeth a chydweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y sector yn cyfrannu'n llawn i'r nod o ddatblygu cymunedau deinamig a chynaliadwy yng Nghymru.”***

Un Llais Cymru  
24c Stryd y Coleg  
Rhydaman  
SA18 3AF  
01269 595 400

[gweinydd@unllaiscymru.org.uk](mailto:gweinydd@unllaiscymru.org.uk)  
[www.unllaiscymru.org.uk](http://www.unllaiscymru.org.uk)

**Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod cynnwys y cyhoeddiad hwn yn gywir adeg ei argraffu.**

**Cynhyrchwyd y canllaw hwn gyda chefnogaeth garedig**

**Cynn  
wys**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

**Dewch yn Gynghorydd Lleol yn 2017****Cyflwyniad**

Beth yw Cyngorau Cymuned a Thref?.....	04
Beth mae'r cyngorau hyn yn ei wneud? .....	05
Beth felly mae'n rhaid i Gymuned neu Dref ei wneud?.....	08
Gyda phwy arall mae cyngorau'n gweithio?.....	08
Bod yn gyngorydd.....	09
Beth mae cyngorwyr yn ei wneud?.....	09
Faint o amser sydd ei angen?.....	11
A ydw i'n gymwys?.....	11
Ond rwyf yn rhy ifanc .....	11
Nid wyf yn aelod o blaid wleidyddol ac nid wyf eisiau bod.....	12
Sut i ddod yn gyngorydd .....	12
Rhagor o Wybodaeth.....	13

**Dewch yn Gynghorydd Lleol 2017**





- **A yw dyfodol eich cymuned neu dref leol yn bwysig iawn ichi?**
- **A oes rhywbeth yr hoffech ei newid neu wella ar gyfer pobl leol?**
- **A ydych yn barod i wneud penderfyniadau heriol?**
- **Beth am sefyll dros yr hyn sy'n bwysig ichi a dod yn gynghorydd cymuned neu dref yn eich ardal leol?**

Pwrpas y canllaw hwn yw cynnig cyflwyniad cyflym i'r wybodaeth sylfaenol y mae angen ichi ei hystyried wrth feddwl am gynnig eich enw i fod yn gynghorydd cymuned neu dref.

## Cyflwyniad

### Beth yw Cyngorau Cymuned a Thref?

Mae 735 cyngor cymuned a thref yng Nghymru; nid yw'r nifer hwn wedi newid llawer ers yr 1980au. Diwygiodd ac ad-drefnodd Deddf Llywodraeth Leol 1972 strwythurau llywodraeth



leol yng Nghymru ac arweiniodd at yr adolygiadau cymunedol arbennig a barodd i Gymru gyfan gael ei rhannu'n gymunedau. Cyngorau cymuned a thref yw'r lefel fwyaf lleol o lywodraeth:

Maent yn gyrrff corfforaethol ac yn awdurdodau lleol a gwasanaethant lawer o ardaloedd trefol a gwledig ledled Cymru. Cwmpasant tua 94% o arwynebedd tir Cymru a 70% o boblogaeth Cymru. Mae ganddynt lais nerthol i gynrychioli pobl leol.

Mae cyngorau cymuned a thref yn haen etholedig o lywodraeth leol. Yr haen arall yng Nghymru yw Awdurdodau Unedol. Mae gan awdurdodau unedol ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau fel addysg, cynllunio gwlad a thref, iechyd yr amgylchedd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan gyngorau cymuned a thref y grym cyfreithiol i weithredu, ond mae ganddynt lai o ddyletswyddau a'r rhyddid i ddewis sut i weithredu. Gallant chwarae rhan hollbwysig yn cynrychioli buddiannau eu cymunedau a dylanwadu ar wneuthurwyr penderfyniadau eraill. Gallant weithredu hefyd i wella ansawdd bywyd pobl leol a'u hamgylchedd lleol ac weithiau gallant ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol.

Mae pob cyngor yn cynnwys aelodau etholedig, neu aelodau cyfetholedig mewn rhai sefyllfaoedd. Mae cyngor nodweddiadol yn cynrychioli tua 1500 o bobl, ond y boblogaeth fwyaf a wasanaethir gan gyngor tref yw'r Barri sydd â phoblogaeth o dros 50,000. Mae amrywiaeth cynghorau cymuned a thref yn gryfder. Gall pob un gynnig ymateb unigryw i anghenion eu cymuned gan arddangos sensitifrwydd sy'n anoddach i gynghorau sir neu fwrdeistref sirol ei gyflawni. Yng Nghymru mae tua 8000 cynghorydd cymuned a thref, sy'n cynrychioli buddiannau'r cymunedau a wasanaethant yn gyffredinol. Cydnabyddir fod ganddynt rôl yn lleisio barn pobl leol wrth i wasanaethau cyhoeddus gael eu datblygu a'u darparu yng Nghymru.

Yng Nghymru fe'u gelwir yn gynghorau cymuned neu gynghorau tref – yn Lloegr fe'u gelwir yn gynghorau plwyf neu dref. Yn Lloegr a Chymru maent yn unedau etholedig o lywodraeth leol y mae eu gweithgarwch yn cael ei reoli gan Ddeddfau Senedd y DG neu gan ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Er mwyn cael gwybod a oes cyngor cymuned neu dref yn eich ardal chi cysylltwch ag **Un Llais Cymru** – mae'r manylion cyswllt ar glawr mewnol y canllaw hwn.

## **Beth mae'r cynghorau hyn yn ei wneud?**

Cynghorau cymuned a thref yw'r rhan o lywodraeth leol sydd agosaf at y bobl. Gwasanaethant yr ardal leiaf ac maent yn gyfrifol am y materion mwyaf lleol. Ffactor bwysig iawn yw y gall y cynghorau hyn "braeseptio" – sef codi swm a gesglir gyda'r treth cyngor bob blwyddyn i wella cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer pobl leol.



Mae gan gynghorau cymuned a thref nifer o gyfrifoldebau sylfaenol i wneud bywydau cymunedau lleol yn fwy cyfforddus, ac mae llawer ohonynt yn cael eu cymryd yn ganiataol. Yn y bôn mae'r grymoedd hyn yn rhannu'n dri chategori: cynrychioli buddiannau'r etholaeth gyfan o fewn y gymuned; darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol; a cheisio gwella ansawdd bywyd yn y gymuned.

Mae gan gynghorau cymuned a thref nifer o rymoedd unigol gwahanol gan gynnwys darparu a chynnal cynlluniau trafndiaeth cymunedol, camau arafu traffig, prosiectau ieuencid lleol, gweithgareddau twristiaeth, cyfleusterau hamdden, meysydd parcio, lawntiau pentref, tai bach cyhoeddus, biniau sbwriel, goleuadau strydoedd, glanhau strydoedd, mynwentydd, rhandiroedd, cysgodfannau bysiau, tiroedd comin, llecynnau



agored, llwybrau cerdded, llwybrau ceffylau a chamau lleihau troseddau. Mae Llywodraeth Cymru yn annog cynghorau cymuned a thref i ddarparu mwy o wasanaethau a chwarae mwy o ran yn eu cymunedau.

Er enghraifft, gallai cyngor cymuned neu dref drefnu neu roi cymorth ariannol i:

- fws gyda'r nos i fynd â phobl ifanc i'r dref agosaf;
- tai fforddiadwy i'w rhentu;
- digwyddiadau glanhau pyllau dŵr,
- ail-addurno'r ganolfan gymunedol;
- clwb galw heibio i bobl ifanc;
- adfer bandstand;
- offer ar gyfer y grŵp chwarae;
- cludiant i ysbyty.



Byddai prosiectau fel y rhain yn her ac nid ydynt ar gyfer y gwangalon. Yn naturiol, gallai eich cyngor benderfynu gwneud fawr ddim, ond wedyn fe allech chi a'ch etholwyr ddechrau holi pam ddylai'r cyngor cymuned neu dref fodoli o gwbl.

Gall cynghorau cymuned a thref gyflwyno sylwadau hefyd ar geisiadau cynllunio – maent yn ymgynghoreion statudol (mae'n rhaid ymgynghori â nhw os ydynt yn dymuno hynny) a gallant gael eu

cynrychioli mewn ymchwiliadau cyhoeddus.

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 y grym 'llesiant' newydd oedd yn adlewyrchu menter Llywodraeth Cymru i adfywio democratiaeth leol er mwyn galluogi'r sector i wneud mwy i wella sefyllfa gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal.

Hefyd, cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ddeddfwriaeth newydd yn caniatáu penodi hyd at ddau unigolyn i weithredu'n gynrychiolwyr ieuencid cymunedol. Mae sawl cyngor cymuned a thref wedi sefydlu cynghorau ieuencid a chynrychiolwyr ieuencid yn eu hardaloedd.

### **Manteision Cyngor Cymuned neu Dref**

Amlygodd astudiaeth ymchwil annibynnol a gynhaliwyd gan Brifysgol Aberystwyth yn 2003 8 mantais allweddol i gynghorau cymuned:

- **Ymatebolrwydd Lleol:** Ar gyfartaledd mae un cynghorydd cymuned neu dref ar gyfer pob 250 person yn y rhannau hynny o Gymru a chanddynt gynghorau lefel leol, o gymharu ag un cynghorydd sir neu fwrdeistref sirol ar gyfer pob 2,320 person ledled Cymru. Mae'r rhan fwyaf o aelodau cynghorau cymuned a thref yn byw yn y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu ac mae llawer o gynghorwyr hefyd yn ymgysylltu â phobl leol trwy arolygon, cylchlythyrau a chyfarfodydd cyhoeddus. Yn hynny o beth gall cynghorau cymuned a thref fod yn fwy ymatebol nac awdurdodau haen uwch i anghenion a buddiannau cymunedau, ac i'r amrywiol fuddiannau ac anghenion a geir mewn cymuned.
- **Cynrychioli Buddiannau Lleol:** Gall cynghorau cymuned a thref fod yn gyfrwng ar gyfer cyflwyno buddiannau lleol i sylw cyrff allanol. Tra bod rhaid i Awdurdodau Unedol dafoli anghenion a buddiannau cystadleuol y llu o gymunedau ar draws eu tiriogaeth, mae gan gynghorau cymuned a thref gyfrifoldeb am un gymuned a gallant ganolbwyntio'n llwyr ar eiriol dros fuddiannau'r gymuned honno.
- **Mobileiddio Gweithgarwch Cymunedol:** Mae cynghorau cymuned a thref yn bodoli ar raddfa sy'n adlewyrchu patrymau ymwneud cymdeithasol pobl a'u huniaethiad â lle. Gallant felly weithredu i hwyluso gweithgareddau cymunedol, trefnu a noddi digwyddiadau cymunedol a hyrwyddo ysbryd a chynhwysiad cymunedol. Mae cynghorau cymuned a thref yn chwarae rôl hollbwysig yn cefnogi clybiau a mudiadau lleol. Rhyngddynt maent yn cyfrannu dros £1 miliwn o grantiau i grwpiau cymunedol, clybiau chwaraeon, elusennau a mudiadau eraill yn y sector gwirfoddol bob blwyddyn – arian nad yw ar gael i gymunedau heb gynghorau.
- **Ychwanegolrwydd:** Gall cynghorau cymuned a thref gynnig ychwanegolrwydd i'r gwasanaethau a chyfleusterau a gynhelir gan gynghorau sir a bwrdeistrefi sirol. Mae ganddynt yr hyblygrwydd i wella gwasanaethau yn y gymuned, neu i ddarparu gwasanaethau ychwanegol, cyfleusterau neu hyd yn oed nodweddion syml fel arddangosiadau blodau, all fod y tu hwnt i flaenoriaethau cyllidebol y prif gynghorau.
- **Atebolrwydd:** Daw awdurdod cynghorau cymuned a thref o'u mandad etholiadol. Yn groes i swyddogion cymdeithasau cymunedol anstatudol, mae cynghorwyr cymuned a thref yn atebol i'r etholaeth leol a gellir eu diswyddo adeg etholiad. Maent hefyd yn atebol i'r gymuned gyfan, ac nid i'r bobl a dalodd dâl aelodaeth, ac o'r herwydd mae ganddynt gymhelliad i ymgysylltu gyda a chynrychioli holl sectorau'r gymuned, ac nid yn unig y sawl sydd fwyaf tebygol o ymuno â chymdeithasau lleol.
- **Sefydlogrwydd a Pharhad:** Mae cyfansoddiad statudol cynghorau cymuned a thref yn cynnig sicrwydd cymharol o ran eu parhad. Yn wahanol i gymdeithasau cymunedol anstatudol, nid ydynt yn ddibynnol ar ddenu aelodau neu sicrhau cyllid parhaus gan gyrff sy'n darparu grantiau. Golyga hyn y gall cynghorau cymuned a thref gynllunio dros gyfnod hirach o amser a bod ganddynt fwy o gapasiti i ymhel â phrosiectau ar raddfa fwy.
- **Grymoedd codi trethi:** Mae gallu cynghorau cymuned a thref i braeseptio'r dreth cyngor yn un o'u grymoedd mwyaf arwyddocaol. Er y gallant fod yn gyfyngedig o ran sicrhau arian mewn cyd-destunau eraill, mae'r gallu i braeseptio yn cynnig incwm cymharol sefydlog (sydd eto'n cefnogi cynllunio hirdymor) a ffordd o godi arian o'r gymuned i'w ail-fuddsoddi yn y gymuned er lles y gymuned.
- **Hyrwyddo Gwasanaeth Gyhoeddus:** Mae cymryd rhan fel cynghorydd cymuned neu dref yn rhoi gwell cyfle i unigolyn gynnig gwasanaeth cyhoeddus mewn llywodraeth leol na bod yn aelod o gymdeithas gymunedol anstatudol. Gall cynghorau cymuned a thref fod yn 'faes hyfforddiant' ar gyfer unigolion all fynd ymlaen ymhen amser i wasanaethu'n gynghorwyr sir neu fwrdeistref sirol, neu gynnig eu hunain ar gyfer swydd wleidyddol uwch.

## Beth felly mae'n rhaid i Gyngor Cymuned neu Dref ei wneud?

Mae'r gyfraith yn rhoi llawer o ddewisiadau i gynghorau cymuned a thref o ran gweithgareddau i ymhel â nhw, ond prin iawn yw'r dyletswyddau a gweithgareddau y

mae'n rhaid iddynt eu cynnal wrth ddarparu gwasanaethau i bobl leol. Ymhlith yr enghreifftiau o ddyletswyddau y mae'n rhaid i gynghorau eu cyflawni mae:

- cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynlluniau cymunedol dan arweiniad y cyngor sir neu fwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal;
- darparu rhandiroedd os yw'r cyngor yn barnu fod galw amdanynt gan bobl leol a'i bod yn rhesymol gwneud hynny;
- cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998;
- cydymffurfio â'r gyfraith gyffredinol, er enghraifft, yn ymwneud â chyflogaeth;
- ystyried effaith eu penderfyniadau ar leihau troseddu ac anhrefn yn yr ardal;
- rhoi sylw i'r angen i ddiogelu bioamrywiaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- penderfynu a ddylai fabwysiadu mynwent pan gaiff ei chau, os caiff gais i wneud hynny gan y Cyngor Plwyf Eglwysig (sylwer: nid yw hyn yn berthnasol i fynwent yr Eglwys yng Nghymru).

Mae gan gynghorau cymuned a thref gyfrifoldeb i ddangos eu bod wedi adnabod a rheoli'r risgiau i arian cyhoeddus yn deillio o'u gwaith.

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn cydnabod yn gyfreithiol statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi llunio rheoliadau eto yn nodi pa safonau y Gymraeg fydd yn berthnasol i gynghorau cymuned a thref ond y bwriad yw gwneud hynny maes o law, yn dilyn rhagor o ymgynghori. Mae Cynlluniau Iaith Gymraeg sy'n bodoli'n barod yn parhau mewn grym hyd nes y gwneir y rheoliadau.

Mae gan y cyngor cymuned ddyletswydd hefyd i sicrhau y dilynir yr holl reolau ar gyfer gweinyddu'r cyngor. Rhaid i'r cyngor:

- benodi cadeirydd y cyngor;
- benodi swyddogion angenrheidiol ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau;
- benodi swyddog ariannol cyfrifol (RFO) i reoli materion ariannol y cyngor; yn aml iawn yr RFO yw'r clerck, yn enwedig felly mewn cynghorau llai;
- benodi archwilydd mewnol annibynnol a chymwys (gweler isod);
- gadw cofnodion o'r holl benderfyniadau yn ymwneud â gwaith y cyngor (y cofnodion);
- gynnal Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai neu'n fuan wedi etholiadau cynghorau cymuned a thref.

## Gyda phwy arall mae cynghorau'n gweithio

Byddant yn aml yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus mwy yn eu hardal fel Awdurdodau Unedol, Byrddau Iechyd a'r Heddlu ac yn cydweithio â nhw i sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu'n effeithiol ar gyfer y gymuned leol.



Fwy a mwy mae cymunedau a threfi'n gweithio gyda mudiadau trydydd sector i sicrhau bod gwasanaethau lleol gwerthfawr yn cael eu cynnal, fel tai bach cyhoeddus, amgueddfeydd lleol a llyfrgelloedd, llwybrau seiclo a cherdded, lleiniau glas agored a llawer iawn mwy. Mae cymunedau a threfi'n cyfrannu fwyfwy at ofalu am eu hardaloedd



lleol gyda chefnogaeth gan fudiadau cymunedol lleol a phobl y cylch. Bydd cydweithio yn nodwedd hollbwysig o waith cymunedau a threfi yn y blynyddoedd nesaf.

## Bod yn gynghorydd

### Beth yw cynghorydd?



Etholir cynghorwyr i gynrychioli uned ddaearyddol unigol ar y cyngor, a elwir yn ward neu – mewn cymunedau llai yn bennaf – ardal gyfan y cyngor cymuned neu dref. Gan amlaf, fe'u hetholir gan y cyhoedd bob pum mlynedd.

### Beth mae cynghorwyr yn ei wneud?

Mae ganddynt ddyletswydd i ymddwyn yn briodol fel cynghorydd. Mae ganddynt gyfrifoldeb penodol i:

- fynychu cyfarfodydd y cyngor cymuned neu dref pan gânt wŷs i wneud hynny; yn gyfreithiol, mae'r hysbysiad i fynychu cyfarfod cyngor yn wŷs, gan fod gennych ddyletswydd i'w fynychu;
- baratoi ar gyfer cyfarfodydd trwy astudio'r agenda a gofalu fod gennych ddigon o wybodaeth am y materion a drafodir, gan gymryd cyngor lle y bo angen;
- gymryd rhan mewn cyfarfodydd a llunio barn wrthrychol yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i'r gymuned – ac yna parchu penderfyniadau'r mwyafrif;
- sicrhau, gyda chynghorwyr eraill, bod y cyngor yn cael ei reoli'n iawn;
- weithredu'n gyfartal ar ran yr etholaeth gyfan, ac nid yn unig y sawl a gefnogodd eich ymgyrch etholiad; yn yr un modd, cymryd yr un diddordeb ym mhob mater ac nid yn unig y materion lleol hynny yr oeddech wedi ymgyrchu drostynt; gwrandao, ac yna lleisio barn y gymuned wrth drafod gwaith y cyngor a gweithio gyda chyrrff allanol;
- gadw safonau ymddygiad priodol fel cynrychiolydd etholedig y bobl.

Mae tair prif elfen i waith cynghorwyr.

1. *Gwneud penderfyniadau* – Trwy gyfarfodydd a mynychu pwyllgorau gydag aelodau etholedig eraill, mae cynghorwyr yn penderfynu pa weithgareddau i'w cefnogi, ymhle y dylid gwario arian, pa wasanaethau ddylid eu darparu a pha bolisiâu ddylid eu gweithredu. Wrth gyflawni eu rôl mae ganddynt ddyletswydd i gadw at ddarpariaethau Cod Ymddygiad Cynghorwyr.



2. *Monitro* – Mae cynghorwyr yn gofalu fod eu penderfyniadau'n arwain at wasanaethau effeithlon ac effeithiol trwy gadw golwg ar ba

mor dda mae pethau'n gweithio.

3. *Cyfrannu'n lleol* – Fel cynrychiolwyr lleol, mae gan gynghorwyr gyfrifoldebau tuag at eu hetholwyr a mudiadau lleol. Mae'r cyfrifoldebau a dyletswyddau hyn yn dibynnu'n aml ar beth mae'r cynghorydd eisiau'i gyflawni a faint o amser sydd ar gael, a gallant gynnwys:
- Mynd i gyfarfodydd mudiadau lleol fel cymdeithasau tenantiaid.
  - Mynd i gyfarfodydd cyrff sy'n effeithio'r gymuned ehangach.
  - Gweithredu ar faterion ar ran aelodau'r cyhoedd.
  - Rhedeg cymhorthfa fel y gall pobl leol godi materion.
  - Cyfarfod â phobl leol unigol yn eu cartrefi eu hunain.

Mynd i weld eich cyngor yw'r ffordd orau o ddod i wybod beth sy'n digwydd yno. Ffoniwch y cyngor i gael gwybod pryd mae ei gyfarfod cyhoeddus nesaf yn cael ei gynnal. Mae gan y cyhoedd hawl cyfreithiol i fod yn bresennol yn ystod y rhan fwyaf o drafodaethau'r cyngor.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru set o werthoedd sector cyhoeddus i lywio sut ddylai gwasanaethau cyhoeddus weithio. Y gwerthoedd yw:

- gweithio ar gyfer yr hirdymor
- tyfu a gwella'n barhaus
- cydweithio
- trin pawb gyda pharch
- rhoi pobl yn gyntaf

### **Rheolau a rheoliadau i gynghorwyr**

Mae disgwyl i bob cynghorydd gadw at y safonau ymddygiad uchaf. Mae angen i'r cyhoedd deimlo'n ffyddiog eich bod yn cadw at y safonau uchel y mae ganddynt hawl i'w disgwyl gennych.

Rheolir gwaith cynghorwyr gan God Ymddygiad statudol sy'n amlinellu beth a ddisgwylir ganddynt o ran ymddygiad; mae'r cod hwn yn berthnasol i gynghorwyr pryd bynnag y maent neu yr ymddengys eu bod yn gweithredu'n gynghorydd – yn y bôn, drwy'r amser i bob pwrpas. Yn ôl y Cod, mae angen i gynghorwyr weithredu'n amlwg iawn yn y ffyrdd a amlinellir isod:

- Gweithredu er lles y cyhoedd yn unig – ac nid er eich lles eich hun nac unrhyw un arall
- Bod yn onest a datgan unrhyw fuddiannau sydd gennych
- Gweithredu gydag integriti – a pheidio cael eich dylanwadu gan bobl neu fudiadau er eu lles eu hunain
- Gweithredu o fewn y gyfraith
- Defnyddio adnoddau'r awdurdod yn gyfreithlon a darbodus
- Cymryd pob penderfyniad yn ôl eu haeddiant, gan ddefnyddio'r holl wybodaeth a thystiolaeth sydd ar gael
- Dangos parch at bobl eraill, waeth pwy ydynt a beth maen nhw'n ei gredu
- Bod mor agored ag y gallwch am eich gweithredoedd a gweithredoedd y cyngor
- Bod yn barod i'r cyhoedd graffu ar eich gwaith
- Arwain eraill trwy esiampl a bod yn fodel rôl cadarnhaol i'r cyhoedd a swyddogion

Gellir cyfeirio enghreifftiau o dorri'r Cod at *Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Cymru a gall cosbau gynnwys ymddiheuriad ffurfiol, hyfforddiant neu hyd yn oed cael eich atal neu eich datgymhwyso o'ch swydd. Mae disgwyl i gynghorwyr gytuno'n ffurfiol â'r Cod wrth lofnodi eu bod yn derbyn y swydd wedi'r etholiad. (Ffynhonnell: Cod Ymddygiad, CCC, 2001)**

## Faint o amser sydd ei angen?

Mae llawer o gynghorwyr yn dweud fod eu dyletswyddau'n cymryd rhwng tua thair a saith awr yr wythnos. Yn amlwg mae rhai cynghorwyr yn treulio mwy o amser na hyn – a rhai'n llai, ond yn gyffredinol, mae bod yn gynghorydd cymuned neu dref yn ffordd ddymunol o gyfrannu at eich cymuned, a helpu ei gwneud yn well lle i fyw a gweithio ynddo.

Mae llawer o gynghorau cymuned a thref yn trefnu cynlluniau grant ar gyfer mudiadau lleol sy'n golygu y gellir darparu gwasanaethau lleol gwerthfawr yn eu cymunedau. Mae cymunedau a threfi hefyd yn trefnu gwobrau cyflawniad lleol i gydnabod gwaith a gweithredoedd pobl, clybiau a chymdeithasau lleol.



## A ydw i'n gymwys?

Ydych – mae'r rhan fwyaf o bobl yn gymwys. Fodd bynnag, mae rhai rheolau.

Mae'n rhaid ichi fod yn:

- o ddeiliad Prydeinig, neu'n ddinesydd y Gymanwlad neu'r Undeb Ewropeaidd; ac
- o ar y "dyddiad perthnasol" (h.y. y diwrnod y cewch eich enwebu arno neu, os oes etholiad, diwrnod yr etholiad) yn 18 oed neu drosodd;

A hefyd:

- o ar y "dyddiad perthnasol", yn etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal y cyngor yr ydych am sefyll ar ei chyfer; neu
- o eich bod yn ystod cyfnod cyfan y 12 mis blaenorol wedi meddiannu yn berchennog neu'n denant unrhyw dir ac adeiladau eraill yn ardal y cyngor; neu
- o yn ystod yr un cyfnod fod eich prif neu unig fan gwaith yn ardal y cyngor; neu
- o eich bod yn ystod y cyfnod 12 mis hwnnw wedi byw yn ardal y cyngor (neu o fewn tair milltir iddi)

Ni allwch sefyll mewn etholiad os ydych:

- o yn wrthrych gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim.
- o o fewn pum mlynedd i ddyddiad yr etholiad, wedi cael euogfarn yn y Deyrnas Gyfunol am unrhyw drosedd ac y cawsoch ddedfryd o garchar (boed yn ohriedig ai peidio) am gyfnod o fwy na thri mis heb gael y dewis o dalu dirwy.
- o yn gweithio i'r cyngor yr ydych eisiau bod yn gynghorydd arno (ond gallwch weithio i awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys y prif awdurdodau sy'n gwasanaethu'r un ardal).

## Ond rwyf yn rhy ifanc...

Mae rhai cynghorau cymuned hefyd yn rhedeg cynghorau ieuencid, sy'n cynnwys nifer o bobl ifanc





yn cynrychioli eu hardal leol. Maen nhw'n cael eu fforwm gwleidyddol eu hunain trwy gael lle ac amser i gyfarfod a thrafod materion sy'n effeithio arnyn nhw. Mae'r cynghorau ieuencid hyn yn cadw cysylltiad uniongyrchol â'u cynghorau cymuned fel y gallant hwythau gyfrannu hefyd at y penderfyniadau a wneir. Cysylltwch â'ch cyngor cymuned neu holwch eich ysgol i weld os yw'r naill neu'r llall yn rhan o unrhyw gynllun ac os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn rhan ohono. Os nad oes cynllun o'r fath, neu fforwm cymunedol, beth am gydweithio â chyfeillion a chyflwyno cynnig i'ch cyngor cymuned neu dref lleol.

## **Nid wyf yn aelod o blaid wleidyddol ac nid wyf eisiau bod**

Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorwyr cymuned a thref yn cynrychioli pleidiau gwleidyddol – ac er bod rhai ynghlwm wrth blaid arbennig os ydynt yn gynghorydd mewn sector arall, nid ydynt o reidrwydd yn sefyll yn ymgeisydd gwleidyddol ar gyfer eu cyngor cymuned.

Os hoffech fod yn ymgeisydd plaid wleidyddol, mae pob croeso ichi wneud hynny. Cysylltwch â swyddfa leol eich plaid i gael mwy o wybodaeth.

Y Blaid Geidwadol	<a href="http://www.welshconservatives.com">www.welshconservatives.com</a>
Y Blaid Werdd	<a href="http://www.walesgreenparty.org.uk">www.walesgreenparty.org.uk</a>
Y Blaid Lafur	<a href="http://www.welshlabour.wales">www.welshlabour.wales</a>
Democratiaid Rhyddfrydol	<a href="http://www.welshlibdems.wales">www.welshlibdems.wales</a>
Plaid Cymru	<a href="http://www.plaidcymru.org">www.plaidcymru.org</a>
UKIP	<a href="http://www.ukipwales.org.uk">www.ukipwales.org.uk</a>

## **Sut i ddod yn gynghorydd**

Etholir cynghorwyr cymuned gan y cyhoedd ac fel arfer gwasanaethant am gyfnod o bum mlynedd. Yn dilyn etholiadau, mae cynghorau'n penodi cadeirydd, neu faer y dref mewn cynghorau tref.

## **Gweithdrefn Etholiadau**

Mae etholiadau arferol ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref yn cael eu cynnal ar y dydd lau cyntaf ym mis Mai, gan amlaf bob pedair blynedd. Gall ad-drefnu llywodraeth leol beri i'r Diwrnod Etholiad a blwyddyn yr etholiad newid o dan rai amgylchiadau.

**Mae amserlen etholiadau** (ewch i [www.electoralcommission.org.uk](http://www.electoralcommission.org.uk)) **fel a ganlyn:**

- Cyhoeddi hysbysiad etholiad: Heb fod yn hwyrach na'r pumed diwrnod ar hugain cyn diwrnod yr etholiad
- Cyflwyno Papurau Enwebu: Heb fod yn hwyrach na 4.00pm ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad
- Cyhoeddi rhestr yr ymgeisyddion: Heb fod yn hwyrach na 4.00pm ar y deunawfed diwrnod cyn diwrnod yr etholiad.
- Cyflwyno hysbysiadau tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl: Heb fod yn hwyrach na 4.00pm ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad.
- Hysbysiad Diwrnod Pleidleisio: Heb fod yn hwyrach na'r chweched diwrnod cyn diwrnod yr etholiad.
- Pleidleisio: Rhwng 07:00 a 22:00 ar ddiwrnod yr etholiad.

Wrth bennu'r amserlen caiff y gwyliau banc a phenwythnosau eu diystyru.

## Proses enwebu

Rhaid i ddarpar ymgeisydd drefnu cyflwyno â llaw i'r Swyddog Canlyniadau bapur enwebu dilys. Gellir cael y ffurflen hon o'r Swyddfa Etholiadau. Rhaid nodi cyfnew, enwau blaen, cyfeiriad cartref a disgrifiad (os dymunwch) yr ymgeisydd ynghyd â'i enw neu ei henw a'r llythyren ragddodi o'r gofrestr etholwyr gyfredol (gan ddibynnu ar y meini prawf cymhwysedd a ddefnyddir). Mae gan y Swyddog Canlyniadau gopi o'r gofrestr hon, ac mae gan glerc y cyngor cymuned a thref un hefyd fel arfer.



Rhaid i'r papur enwebu gynnwys hefyd fanylion tebyg ar gyfer cynigydd ac eilydd. Mae'n rhaid iddynt fod yn etholwyr ar gyfer yr ardal y mae'r ymgeisydd yn ceisio cael ei ethol/hethol ar ei chyfer (h.y. y gymuned neu dref neu'r ward os yw wedi'i rhannu'n wardiau): mae'n rhaid iddynt ei llofnodi.

## Beth Nesaf?

Y swyddog canlyniadau a benodir gan awdurdod unedol yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal a threfnu etholiadau cynghorau cymuned a thref. Os ydych yn meddwl am fod yn ymgeisydd ar gyfer etholiad efallai y byddai'n ddoeth cysylltu â'r Swyddfa Etholiadau i gael unrhyw wybodaeth fanwl arall. Hefyd, er mwyn cael mwy o wybodaeth am sut brofiad yw bod yn gynghorydd cysylltwch ag Un Llais Cymru neu eich cyngor cymuned neu dref.

## Mae etholiad ym mis Mai 2017

Ar ôl etholiad Mai 2017, os daw sedd yn wag cyn yr etholiad nesaf (neu os nad oes digon o ymgeisyddion i lenwi holl seddi'r cyngor wedi'r etholiad) efallai y bydd rhaid i'r cyngor gynnal is-etholiad. Mewn rhai amgylchiadau gall y cyngor hefyd gyfethol aelodau ar y cyngor.

## Rhagor o Wybodaeth

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch cysylltwch â'ch cyngor cymuned neu dref lleol. Gallwch hefyd gysylltu ag Un Llais Cymru, y corff cynrychioliadol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru, ar 01269 595400 neu ebostio [gweinydd@unllaiscymru.org.uk](mailto:gweinydd@unllaiscymru.org.uk)

## Ffynonellau gwybodaeth eraill

Llywodraeth Cymru

[www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[www.wlga.gov.uk](http://www.wlga.gov.uk)

Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol

[www.slcc.co.uk](http://www.slcc.co.uk)

Comisiwn Etholiadol

[www.electoralcommission.org.uk](http://www.electoralcommission.org.uk)

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

[www.ombudsman-wales.org.uk](http://www.ombudsman-wales.org.uk)

# **Arolwg Ymgeisyddion Etholiadau 2012: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau (Ffynhonnell: Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013)**

Mae Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Uned Data Cymru, wedi cynnal arolwg o gynghorwyr llywodraeth leol (Awdurdodau Unedol a chynghorwyr cymuned a thref) ac ymgeisyddion yn dilyn etholiadau mis Mai 2012. Hwn yw'r arolwg cyntaf o'i fath yng Nghymru ar ymgeisyddion llywodraeth leol. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn:

<http://gov.wales/docs/caecd/research/130503-local-government-candidates-survey-en.pdf>

Ceir crynodeb o'r canfyddiadau yma:

## **Ymatebion**

- Casglwyd cyfanswm o 3,201 o ymatebion o 21 awdurdod lleol.
- Roedd cyfradd ymateb cynghorwyr sir yn amrywio o awdurdod i awdurdod, o 66 y cant yn Sir y Fflint i 12 y cant yng Nghaerdydd

## **Rhywedd**

- Roedd 32 y cant o gynghorwyr etholedig yn fenywod o gymharu â 31 y cant o ymgeisyddion na chawsant eu hethol.
- Ymhlith cynghorwyr sir, roedd 28 y cant yn fenywod.

## **Oed**

- Roedd mwyafrif y cynghorwyr etholedig dros 60 oed – 57 y cant o gynghorwyr sir a 61 y cant o gynghorwyr cymuned.
- Roedd 46 y cant o ymgeisyddion na chawsant eu hethol o'r un oed.

## **Ethnigrwydd**

- Roedd mwyafrif y cynghorwyr etholedig yn Wyn – 99.4 y cant.
- Roedd 2.8 y cant o ymgeisyddion na chawsant eu hethol o gefndir lleiafrif ethnig (grwpiau ethnig cymysg/lluosog, Asiaidd/Asiaidd Brydeinig, Du/Affricanaidd, Arall).

## **Crefydd**

- Dywedodd 83 y cant o'r sampl o gynghorwyr etholedig eu bod yn Gristnogion o gymharu â 70 y cant o ymgeisyddion na chawsant eu hethol.

## **Cyfeiriadedd Rhywiol**

- Dywedodd 2 y cant o gynghorwyr etholedig eu bod yn lesbiaid, hoyw neu ddeurywiol (LGB) o gymharu â 5 y cant o ymgeisyddion na chawsant eu hethol.

## **Anabledd**

- Roedd 14 y cant o gynghorwyr etholedig yn ystyried eu hunain yn anabl o gymharu â 15 y cant o ymgeisyddion na chawsant eu hethol.



## **Profiad Blaenorol**

- Dywedodd 83 y cant o gynghorwyr etholedig eu bod wedi gwasanaethu'n gynghorydd yn y gorffennol, sy'n awgrymu fod ail-ethol yn gyffredin iawn.

## **Statws Cyflogaeth**

- Roedd 44 y cant o gynghorwyr etholedig wedi ymddeol o gymharu â 35 y cant o ymgeisyddion na chawsant eu hethol.
- Nid oedd 3 y cant o gynghorwyr etholedig yn y farchnad waith o gymharu â 6 y cant o ymgeisyddion na chawsant eu hethol.
- Dywedodd 43 y cant o gynghorwyr etholedig fod eu swydd bresennol neu fwyaf diweddar yn y sector cyhoeddus, 43 y cant yn y sector preifat, a 5 y cant yn y sector gwirfoddol. Dywedodd y 9 y cant arall mai eu sector cyflogaeth bresennol neu fwyaf diweddar oedd 'arall'. Nid oedd fawr ddim amrywiaeth ar draws y sampl o ymgeisyddion na chawsant eu hethol.
- Roedd cyfran is o ymgeisyddion na chawsant eu hethol yn weithwyr llaw neu grefft.

## **Lefel Addysgol**

- Roedd gan 52 y cant o'r sampl o gynghorwyr etholedig gymhwyster yn cyfateb i NVQ lefel 4 ac uwch (h.y. gradd neu gymhwyster proffesiynol) o gymharu â 59 y cant o ymgeisyddion na chawsant eu hethol.

## **Y Gymraeg**

- Dywedodd 25 y cant o gynghorwyr etholedig mai eu hiaith gyntaf oedd y Gymraeg o gymharu â 13 y cant o ymgeisyddion na chawsant eu hethol.
- Dywedodd 16 y cant o gynghorwyr sir mai eu hiaith gyntaf oedd y Gymraeg o gymharu â 26 y cant o gynghorwyr cymuned a 15 y cant o ymgeisyddion cynghorau sir na chawsant eu hethol.

Sylwer: Nid yw'r canlyniadau'n cynnwys data o Ynys Môn, gan y gohiriwyd eu hetholiadau am flwyddyn tan fis Mai 2013, a chynhelir arolwg ar wahân ar gyfer y sir bryd hynny.

Un Llais Cymru



One Voice Wales

**Un Llais Cymru  
24c Stryd y Coleg  
Rhydaman  
SA18 3AF  
01269 595 400**

**[gweinydd@unllaiscymru.org.uk](mailto:gweinydd@unllaiscymru.org.uk)**  
**[www.unllaiscymru.org.uk](http://www.unllaiscymru.org.uk)**